

Gwybod Eich Hawliau

**Eich canllaw i Ddeddf Tribiwnlys Addysg
Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018**



Ysgrifennwyd y ddogfen hon gan **Anabledd Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Gwybod eich hawliau Defnyddio eich hawliau Byw eich hawliau**'.

Mawrth 2022

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych yn ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd eu deall. Gallwch chi wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 15**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Anabledd Cymru**. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:



Gwefan: www.disabilitywales.org

E-bost: info@disabilitywales.org

Ffôn: 02920 887 325



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthon niym beth yw eich barn am y ddogfen hawdd ei deall hon, [cliciwch yma](#).

Cynnwys


Tudalen

Cyflwyniad	4
Ynglŷn â'n gwaith.....	5
Deddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018	7
Gwybod eich hawliau.....	9
Asesiadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol.....	9
Cynlluniau Dysgu Unigol	10
Defnyddio eich hawliau	12
Rhagor o Wybodaeth	14
Geiriau anodd.....	15

Cyflwyniad



Ysgrifennwyd y llyfryn hwn gan **Anabledd Cymru**.



Mae'r llyfryn hwn ar gyfer Pobl Anabl a Sefydliadau Pobl Anabl.



Mae'r llyfryn hwn yn rhoi gwybodaeth am **Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018**. Ond nid cyngor cyfreithiol yw e.



Mae cyfanswm o 8 llyfryn. Mae gan bob llyfryn wybodaeth am gyfraith wahanol.



Roedd y llyfryn hwn yn gywir ym mis Ionawr 2021. Ond gallai'r **Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol** newid yn y dyfodol.

Ynglŷn â'n gwaith



Rydym yn gweithio'n galed i ddiogelu **hawliau** Pobl Anabl.



Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych yr hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae **hawliau** yn dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.


Mae gan bobl eraill **hawliau** hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.



Yn 2020, gofynnwyd i Bobl Anabl yng Nghymru am eu **hawliau**.




Dywedodd llawer o Bobl Anabl wrthon ni nad oedd eu **hawliau** yn cael eu diogelu'n dda yng Nghymru.



Roedd llawer o Bobl Anabl yn teimlo na fyddai hyn yn gwella yn y dyfodol.



Rydyn ni am i Bobl Anabl wybod a defnyddio eu **hawliau**. Ac i deimlo'n ddiogel.



Fe wnaethon ni ysgrifennu'r 8 llyfryn hyn i helpu.


Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018



Mae **Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018** yn gyfraith newydd. Byddwn ni'n ei alw'n y **Ddeddf** yn fyr.



Mae'r **Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol** ar gyfer pobl ag **anghenion dysgu ychwanegol** o 0-25 mlwydd oed.



Bydd y **Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn dechrau cael ei ddefnyddio rhwng 2021 a 2024. Bydd yn cymryd lle:

- y system anghenion addysgol arbennig
- a'r system anawsterau dysgu a/neu anabledau.



Mae rhai pobl ag **anghenion dysgu ychwanegol** yn ei chael hi'n anoddach o lawer na phobl eraill.



Mae rhai pobl ag **anghenion dysgu ychwanegol** yn ei chael hi'n llawer anoddach defnyddio cyfleusterau addysg na phobl eraill.



Mae angen cymorth ychwanegol ar bobl ag **anghenion dysgu ychwanegol** pan fyddan nhw mewn addysg neu hyfforddiant.



Bydd y **Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol** yn gwneud bywyd yn haws i blant a phobl ifanc ag **anghenion dysgu ychwanegol**.



A bydd yn helpu ysgolion, colegau, plant neu pobl ifanc a'u rhieni i gydweithio'n well.

Gwybod eich hawliau

Asesiadau ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol



Os yw ysgol neu **awdurdod lleol** yn credu bod gennych chi **anghenion dysgu ychwanegol**, rhaid iddyn nhw wneud **asesiad**.



Eich cyngor chi yw'r **awdurdod lleol**. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau yn eich ardal fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd, goleuadau a chasglu sbwriel.



Mae **asesu** yn ffordd o ddarganfod a oes angen help a chefnogaeth ar rywun.



Bydd **asesiad** yn gwirio a oes gennych chi **anghenion dysgu ychwanegol**. A bydd yn cyfrifo pa gymorth sydd ei angen arnoch chi.



Dylai'r **asesiad** ystyried yr hyn rydych chi am ei wneud. Fel lle rydych chi eisiau mynd i'r ysgol.



Dylai **awdurdodau lleol** geisio eich cadw yn eich ysgol arferol. Gyda myfyrwyr eraill nad oes ganddyn nhw **anghenion dysgu ychwanegol**. Nid yw hyn bob amser yn bosibl.

Cynlluniau datblygu unigol



Os oes gennych chi **anghenion dysgu ychwanegol**, rhaid i'ch ysgol neu **awdurdod lleol** ysgrifennu **cynllun datblygu unigol**.

Mae **cynllun datblygu unigol** yn dweud pa **anghenion dysgu ychwanegol** sydd gennych chi. A pha gymorth sydd ei angen arnoch chi.



Dylech chi gael copi o'ch **cynllun datblygu unigol**. Ac os ydych chi o dan 18 mlwydd oed, dylai eich rhieni gael copi.



Dylech chi a'ch rhieni gael unrhyw gyngor sydd ei angen arnoch chi am eich **anghenion dysgu ychwanegol**. Fel lle i fynd am fwy o help.



Efallai y cewch chi help gan y **GIG** ar gyfer eich anghenion dysgu ychwanegol.



Gallai'r **GIG** newid eich **cynllun datblygu unigol** os ydyn nhw'n credu y bydd yn eich helpu.



Os byddwch chi'n symud ysgolion neu **awdurdod lleol**, mae eich **cynllun datblygu unigol** yn aros yr un fath.



Dylid gwirio eich **cynllun datblygu unigol** bob blwyddyn. I weld a oes unrhyw beth wedi newid.



Dylai'r **cynllun datblygu unigol** gynnwys os ydych chi am gael eich cefnogi yn Gymraeg.



Mae unrhyw gymorth a gewch chi ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol am ddim.

Defnyddio eich hawliau



Os ydych chi'n anhapus gyda'ch ysgol, gallwch chi gwyno i'r **awdurdod lleol**. Neu'r **Tribiwnlys Addysg**.

Os ydych chi'n anhapus gydag awdurdod lleol, gallwch chi gwyno i'r **Tribiwnlys Addysg**.



Gall y **Tribiwnlys Addysg** helpu i ddatrys problemau pan nad yw pobl yn cytuno .



Gall y **Tribiwnlys Addysg** wneud penderfyniadau terfynol ynghylch **asesiadau**, **anghenion dysgu ychwanegol**, cymorth a **chynllun datblygu unigol**.



Ac am faint mae plentyn neu berson ifanc yn ei ddeall.



Os ewch chi i **Dribiwnlys Addysgol**, mae gennych chi **hawl** i **eiriolwr**.

Mae **eiriolwr** yn rhywun sy'n siarad drosoch chi i'ch helpu i ddweud yr hyn yr ydych chi am ei ddweud a diwallu eich anghenion.

Rhaid i **awdurdodau lleol** a'r **GIG** ddilyn:



- **Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.** Neu y **Confensiwn** yn fyr.
- **A Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.** Neu y **Confensiwn** yn fyr.



Gallwch chi ddysgu mwy am **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl** yn **Gwybod eich Hawliau - Eich canllaw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.** Gallwch chi ddysgu mwy am **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** yn yr adran **Mwy o Wybodaeth.**



Os credwch chi nad yw **awdurdodau lleol** neu'r **GIG** wedi dilyn y rheolau, gallwch chi gwyno.

Rhagor o wybodaeth

Cwestiynau Cyffredin **Llywodraeth Cymru** am **Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol**:

www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/aln-frequently-asked-questions-2_0.pdf

Cynllun **Llywodraeth Cymru** ar gyfer y system **anghenion dysgu ychwanegol**:

www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-v3.pdf

Taflen ffeithiau **Llywodraeth Cymru** ar gyfer plant a phobl ifanc. Ac i'w rhieni neu ofalwyr:

www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-06/aln-factsheet-how-will-the-act-affect-children-young-people-and-parents-carers.pdf

Fersiwn Hawdd ei **Ddeall Llywodraeth y DU** o **Ddeddf Tribiwnlys Addysg Anghenion Dysgu Ychwanegol**:

www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-10/helping-children-and-young-people-who-need-extra-support-to-learn-children-and-young-people-with-additional-learning-needs.pdf

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar **Hawliau'r Plentyn**:

www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights

Geiriau anodd

Asesiad

Mae asesu yn ffordd o ddarganfod a oes angen help a chefnogaeth ar rywun.

Awdurdod lleol

Eich cyngor chi yw'r awdurdod lleol. Maen nhw'n darparu llawer o wasanaethau yn eich ardal fel gwasanaethau cymdeithasol, addysg, ffyrdd, goleuadau a chasglu sbwriel.

Eiriolwr

Mae eiriolwr yn rhywun sy'n siarad drosoch chi i'ch helpu i ddweud yr hyn yr ydych chi am ei ddweud a diwallu eich anghenion.

Hawliau

Hawliau yw'r pethau y caniateir i chi eu gwneud. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i briodi a'r hawl i bleidleisio.

Mae hawliau'n dweud wrthon ni sut y dylen ni gael ein trin. Er enghraifft, mae gennych chi'r hawl i gael eich trin â pharch.

Mae gan bobl eraill hawliau hefyd. Er enghraifft, rhaid i chi drin pobl eraill â pharch.

